HM Government

# Lleihau Trosedd, Cyflwyno Cyfiawnder

## Crynodeb O'r Cynllun Strategol Ar Gyfer Cyfiawnder Troseddol 2004-08

CRIMINAL JUSTICE SYSTEM CJS

Cynhyrchwyd y Crynodeb o'r Cynllun Strategol gan y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (OCJR), ar ran tair o adrannau'r Llywodraeth: y Swyddfa Gartref, yr Adran Materion Cyfansoddiadol ac Adrannau Swyddog y Gyfraith.

Tîm trawsadrannol yw OCJR sy'n cefnogi'r holl asiantaethau cyfiawnder troseddol wrth weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwell gwasanaeth i'r cyhoedd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch Cynllun Strategol ar gyfer Cyfiawnder Troseddol, neu os ydych am dderbyn copïau o'r crynodeb yma mewn Braille neu brint bras, yna cysylltwch â:

Ebost: ocjrenquiry@cjs.gsi.gov.uk

Ffôn: 020 7273 3615

Mae'r fersiwn llawn neu fersiwn cryno o'r Cynllun Strategol ar gyfer Cyfiawnder Troseddol ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar-lein yn: www.cjsonline.gov.uk

Gellir prynu copïau caled o'r fersiwn llawn oddi wrth Y Llyfrfa trwy ffonio 0870 600 5522 neu ar-lein yn: www.tso.co.uk

# Cynnwys


Rhagair: David Blunkett, Charlie Falconer, Peter Goldsmith 3

Cyflwyniad 5

Ble'r ydym yn mynd 6

- Cymunedau: codi ffydd 7
- Dioddefwyr a thystion: safonau gwasanaeth uchel yn gyson 9
- Troseddwyr: sicrhau cyfiawnder am fwy o droseddau 12
- Gorfodi: sicrhau y caiff gorchmynion a dedfrydau'r llys eu cyflawni 15
- Defnyddwyr: gwell gwasanaeth i gwsmeriaid 17

# Rhagair

Fel y tri Gweinidog sy'n gyfrifol am gyfiawnder troseddol, mae'n bleser gennym gyflwyno ein Cynllun Strategol. Mae System Cyfiawnder Troseddol effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau ffydd y cyhoedd mewn llywodraeth gref a threfn y gyfraith. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer diwygio cyfiawnder troseddol.

Ein prif amcan yw lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel. Byddwn yn cyflawni hyn mewn sawl ffordd – lle bynnag y bo modd, trwy rwystro trosedd rhag digwydd yn y lle cyntaf; pan gyflawnir trosedd, trwy ddal y troseddwr yn gyflym a dod ag ef o flaen ei well; ac unwaith y mae troseddwr wedi'i gollfarnu, trwy roi cosb iddo sy'n mynd i'r afael â'r rheswm y cyflawnodd y trosedd yn y lle cyntaf, fel ei fod yn llai tebygol o dramgwyddo eto. Cyhoeddir ein strategaethau ar gyfer lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn dwy ddogfen gyfochrog. Mae *Strydoedd Mwy Diogel, Cymunedau Mwy Diogel* yn dangos sut y byddwn yn atal trosedd ac yn lleihau aildroseddu. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar y ffordd y byddwn yn dod â mwy o droseddwyr o flaen eu gwell, yn gwella'r ffordd y mae gwahanol asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhoi gwell gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion.

Prif egwyddor y cynllun hwn yw cyflwyno cyfiawnder troseddol sy'n rhoi'r sawl sy'n dioddef trosedd yn ei erbyn a'r dinesydd sy'n parchu'r gyfraith yn gyntaf. Yn sail i'r egwyddor hon y mae dwy brif thema:

- uno'r system fel ei bod yn effeithiol, yn gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf, ac yn arwain at ganlyniadau sy'n diogelu'r diniwed yn effeithiol, yn atal troseddwyr ac yn ailsefydlu troseddwyr; ac

- ennyn cefnogaeth y gymuned fel ein bod yn adlewyrchu ei phryderon ac yn dal i ennyn ffydd pobl.

Rydym wedi dod yn bell ers 1997, ac mae'r canlyniadau yn dechrau dod yn amlwg. Yn bwysicaf oll, mae trosedd yn gostwng, o fwy na chwarter ers 1997. Mae mwy o droseddau yn dod o flaen eu gwell – mae'r perfformiad diweddaraf yn dangos cynnydd o 7% o'i gymharu â dwy flynedd yn ôl. Ar ôl cyfnod o ddirywiad, mae ffydd y cyhoedd yn dechrau cynyddu. Mae asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd ac o ganlyniad mae profiadau pobl o gyfiawnder troseddol yn well: cynhelir mwy o achosion llys ar amser, ac mae cyfraddau presenoldeb tystion wedi gwella.

Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn i ni adeiladu arni. Dros y pum mlynedd nesaf, rydym eisiau gwella cyfiawnder troseddol yn fwy fyth, gan wneud arfer gorau heddiw yn arfer safonol ym mhobman. Ein nod ar gyfer 2008 yw darparu gwasanaeth sydd, fel rhan o'r drefn ddyddiol:

- yn weladwy ac yn atebol i ddinasyddion sy'n parchu'r gyfraith;

- yn sensitif i anghenion y dioddefwr, gan sicrhau y caiff dioddefwyr eu cefnogi ac y gwrandewir ar eu lleisiau;

- yn gweithredu'n deg, gan ddiogelu'r diniwed ac erlyn y rhai euog;
- wedi'i huno mewn proses fodern ac effeithiol sy'n gweithio;
- yn rhoi cosbau priodol, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhesymau dros droseddu, ac yn gwneud yn siŵr y cânt eu cwblhau; ac
- yn manteisio i'r eithaf ar botensial TG fodern i wella profiad pob defnyddiwr.

Gyda'i gilydd, bydd yr asiantaethau cyfiawnder troseddol ym mhob ardal yn gwrando ar bryderon eu cymunedau, gan gynnwys cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, ac yn gweithredu arnynt. Caiff y gwersi o'n Canolfan Cyfiawnder Troseddol flaenllaw yn Lerpwl eu cymhwyso ym mhob ardal hefyd.

Caiff y rhai sy'n dioddef trosedd yn eu herbyn eu trin yn sensitif gan staff; byddant yn cael gwybod sut mae eu hachos yn datblygu ac yn cael gwybod y canlyniad. Cânt gyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr, sy'n egluro sut maent yn teimlo am yr hyn sydd wedi digwydd iddynt. Bydd pob asiantaeth yn gweithio i safonau gwasanaeth cyffredin ar gyfer dioddefwyr a thystion a bydd yr asiantaethau yn atebol am y rhain. Bydd dioddefwyr hefyd yn gallu cwyno i Ombwdsmon annibynnol.

Bydd perfformiad yn gwella. Caiff mwy o droseddwyr eu dal (a'u dal yn gyflymach), eu herlyn yn deg ond yn gadarn, eu cosbi a'u helpu i newid eu hymddygiad. Byddwn yn canolbwyntio ein sylw a'n hadnoddau ar bobl sy'n troseddu dro ar ôl tro. Byddwn hefyd yn annog y rhai euog i gydnabod hynny'n fuan yn hytrach na llusgo pethau ymlaen i achos llys.

Os bydd angen achos llys, eithriad prin fydd hi os na chaiff ei gynnal ar yr amser a'r dyddiad a bennwyd. Caiff penderfyniadau'r llys eu gorfodi hefyd. Caiff dirwyon eu talu, caiff asedau troseddwyr eu hadennill a chaiff cosbau cymunedol eu cwblhau.

Dyma sydd wrth wraidd cyfiawnder troseddol, a byddwn yn gwneud yn siŵr ei fod yn digwydd. Gyda gwaith caled y rhai sy'n gweithio yn y maes, a chefnogaeth ein partneriaid yn y gymuned a'r cyhoedd yn gyffredinol, ein nod yw cyflwyno system cyfiawnder troseddol y gallwn oll ymfalchïo ynddi.

**Yr Ysgrifennydd Cartref, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol a'r Twrnai Cyffredinol**

# Cyflwyniad

Crynodeb yw hwn o *Lleihau Trosedd, Cyflwyno Cyfiawnder*, y cynllun strategol ar gyfer cyfiawnder troseddol 2004-2008, a gyhoeddwyd ar 19 Gorffennaf gan yr Ysgrifennydd Cartref, David Blunkett, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol, Charlie Falconer, a'r Twrnai Cyffredinol, Peter Goldsmith.

Mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer cyfiawnder troseddol dros y pum mlynedd nesaf, a'r ffordd y bwriadwn ei chyflawni. Ei brif egwyddor yw cyflwyno system cyfiawnder troseddol sy'n rhoi'r dinesydd sy'n parchu'r gyfraith wrth wraidd popeth a wnawn.

Gellir gweld copi llawn o'r cynllun ar y wefan Cyfiawnder Troseddol (www.cjsonline.gov.uk) ac mae ar gael o'r Llyfrfa am bris o £10.50.

## Pam fod Cyfiawnder Troseddol yn Bwysig

Mae cyflwyno cyfiawnder yn effeithiol yn bwysig. Mae gan gyfiawnder troseddol cryf rôl hanfodol wrth leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel. Mae system unedig, gyda'r holl asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr y caiff troseddwyr eu dal ac y caiff cyfiawnder ei gyflwyno'n gyflym, yn deg ac yn effeithiol, yn hanfodol er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd mewn llywodraeth gref a threfn y gyfraith.

## Ble'r oeddem, a'r hyn yr ydym wedi'i wneud

Ers dod i rym ym 1997 rydym wedi cymryd camau sylweddol tuag at ein nodau o leihau trosedd, dod â mwy o droseddwyr o flaen eu gwell a chodi ffydd y cyhoedd mewn cyfiawnder troseddol fel gwasanaeth cyhoeddus:

- Mae trosedd yn gostwng, i lawr 25% ers 1997 – mae'r siawns o ddioddef trosedd yn eich erbyn bellach ar ei isaf ers 20 mlynedd.
- Mae mwy o ddioddefwyr yn gweld eu troseddwr yn dod o flaen ei well: mae 6% yn fwy o droseddau yn ymddangos o flaen eu gwell yn awr o'i gymharu â dwy flynedd yn ôl.
- Mae'r gostyngiad yn ffydd y cyhoedd wedi'i atal ac yn dechrau gwella: o 3% yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

# Ble'r ydym yn mynd

Rydym wedi cyflawni llawer iawn ond mae llawer o broblemau mawr ar ôl i'w datrys. I ddangos pa ddiwygiadau y byddwn wedi'u cyflawni ymhen pum mlynedd, rydym wedi dyfeisio'r weledigaeth ganlynol sy'n disgrifio'r ffordd y caiff cyfiawnder troseddol ei gyflwyno yn 2008. Mae targedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus yn gysylltiedig â dod â throseddwyr o flaen eu gwell a chynyddu ffydd y cyhoedd yn atgyfnerthu'r blaenoriaethau hyn.

## Gweledigaeth ar gyfer cyfiawnder troseddol yn 2008

**Bydd gan y cyhoedd ffydd fod y System Cyfiawnder Troseddol yn effeithiol ac yn gwasanaethu pob cymuned yn deg.**

**Bydd dioddefwyr a thystion yn derbyn gwasanaeth o safon uchel yn gyson oddi wrth bob asiantaeth cyfiawnder troseddol.**

**Byddwn yn dod â mwy o droseddau o flaen eu gwell trwy broses gyfiawnder fwy modern ac effeithiol.**

**Bydd gwaith gorfodi llym yn chwyldroi cydymffurfiad â dedfrydau a gorchmynion y llysoedd.**

**Bydd cyfiawnder troseddol yn wasanaeth unedig, modern, sy'n cael ei redeg yn dda, ac yn lle gwych i weithio ar gyfer pobl o bob cefndir.**

## Ein targedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus

- lleihau trosedd o 15% a mwy mewn ardaloedd trosedd uchel erbyn 2007-08
- gwella'r dull o gyflwyno cyfiawnder trwy gynyddu nifer y troseddau y bydd troseddwr yn ymddangos o flaen ei well am eu cyflawni i 1.25 miliwn erbyn 2007-08
- rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, lleihau ofn trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chodi ffydd yn y System Cyfiawnder Troseddol heb gyfaddawdu tegwch

## Cymunedau: codi ffydd

### Bydd gan y cyhoedd ffydd fod y System Cyfiawnder Troseddol yn effeithiol ac yn gwasanaethu pob cymuned yn deg

**Beth fydd yn wahanol yn 2008**

- Bydd cyfiawnder troseddol yn well am gyflwyno ei fusnes craidd sef lleihau trosedd a dod â throseddwyr o flaen eu gwell;

**Os ydych yn aelod o'r cyhoedd:**

- bydd gennych ffydd fod y system yn rhoi'r dinesydd sy'n parchu'r gyfraith wrth wraidd popeth a wna.

**Os ydych yn dioddef trosedd yn eich erbyn, neu'n dyst:**

- cewch eich trin â pharch a dealltwriaeth a darperir yr holl wybodaeth, cyfleusterau a chefnogaeth angenrheidiol i chi;
- byddwch yn derbyn gwasanaeth o safon uchel sy'n bodloni safonau cyffredin clir. Bydd asiantaethau cyfiawnder troseddol yn atebol am gyflwyno'r rhain.

**Os ydych o gefndir Du a Lleiafrif Ethnig (BME):**

- bydd gennych fwy o ffydd fod y system cyfiawnder troseddol yn eich trin yn deg;
- bydd anghyfartalwch na ellir ei gyfiawnhau wrth stopio a chwilio ac wrth ddedfrydu wedi'u gostwng;

**A bydd y rhai hynny sy'n gweithio ym maes cyfiawnder troseddol:**

- wedi gwneud mwy o ymdrech i gael gwybodaeth gytbwys am gyfiawnder troseddol yn y cyfryngau, yn arbennig y cyfryngau lleol.
- yn well am ennyn cefnogaeth cymunedau ac ymateb yn effeithiol i'w pryderon. Os bydd hynny'n briodol, bydd y llysoedd yn cyfarfod yn arbennig i ddelio ag achosion yn ymwneud â chyffuriau, trais domestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### Ein strategaeth er mwyn cyflawni hyn

Mae dwy haen benodol i'n strategaeth ar gyfer cynyddu ffydd: gwella boddhad trwy wella perfformiad cyfiawnder troseddol (er enghraifft, trwy leihau trosedd a dod â mwy o droseddau o flaen eu gwell); a sicrhau bod y gwasanaeth yn cyfathrebu'n well â staff, defnyddwyr a'r cyhoedd.

### Darparu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd

Mae pobl yn dyfynnu profiadau eu cyfeillion a'u teulu o'r system cyfiawnder troseddol fel un o'r ffynonellau gwybodaeth pwysicaf am gyfiawnder troseddol. Negyddol fu'r profiadau hynny yn rhy aml yn y gorffennol. Mae gwella'r ffordd yr ydym yn trin y cyhoedd, yn enwedig dioddefwyr a thystion, yn hanfodol er mwyn codi lefelau ffydd.

### Ymateb i bryderon y gymuned

Dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol ddeall ac ymateb i bryderon lleol – megis profiadau bob dydd y cyhoedd o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Credwn y dylai cymunedau a'r cyhoedd allu gweld y llysoedd yn ymateb i'r problemau yn eu hardaloedd eu hunain:

- rydym yn cefnogi asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol i wella eu trefniadau ar gyfer ennyn cefnogaeth a chynnwys cymunedau yn y gwaith o bennu eu blaenoriaethau.

- caiff gwrandawiadau llys arbenigol eu cyflwyno os gallant wneud gwahaniaeth; er enghraifft, ar gyfer achosion yn ymwneud â chyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig.

- rydym yn arbrofi gyda Chanolfan Cyfiawnder Cymunedol yng ngogledd Lerpwl i ddelio â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel-isel, a byddwn yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd mewn mannau eraill pan fo hynny'n briodol.

## Trin cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn decach

Dengys ymchwil fod gan bobl o rai cymunedau lleiafrifoedd ethnig lai o ffydd na'r arfer yn nhegwch y system cyfiawnder troseddol.

- Rydym yn gweithio gyda sefydliadau a buddiannau allanol yn ogystal â Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o raddfa ac achosion tan-gynrychiolaeth a gor-gynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig yn y System Cyfiawnder Troseddol.

- Mae **Strategaeth 2004/05 y Tîm Gweithredu Stopio a Chwilio** yn amlinellu ein strategaeth ar gyfer codi ffydd ymysg cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn y ffordd y mae'r heddlu yn defnyddio'u pwerau, a lleihau anghyfartaledd na ellir ei gyfiawnhau.

- Rydym hefyd yn bwriadu cynnal astudiaeth gynhwysfawr dros ddwy flynedd i weld a oes unrhyw dystiolaeth feintiol o wahaniaeth mewn dedfrydau ar gyfer gwahanol grwpiau BME a phoblogaethau gwyn eraill.

## Ennyn cefnogaeth staff

Mae staff sy'n gweithio i'r system cyfiawnder troseddol yn cael effaith fawr ar ffydd y cyhoedd trwy ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganddynt a'r negeseuon a gyflëir ganddynt. Rydym yn cynnal rhaglen eang o weithgareddau i ennyn cefnogaeth staff yn cynnwys cylchgronau staff a bwletinau staff misol; arolwg rheolaidd o ffydd y staff; a chyfres o drafodaethau o amgylch y bwrdd pan gaiff Gweinidogion a staff llinell flaen gyfle i gyfarfod i drafod materion allweddol i'r system cyfiawnder troseddol.

## Gwell gwybodaeth i'r cyhoedd

Po fwyaf y bydd pobl yn ei wybod am gyfiawnder troseddol a gwaith y gwahanol asiantaethau, y mwyaf o ffydd fydd ganddynt. Rydym yn darparu cefnogaeth ac adnoddau ar gyfer Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i'w helpu i gyfathrebu'n well â'r cyhoedd a'r cyfryngau fel bod y cyhoedd yn cael mynediad at wybodaeth gytbwys a chywir am gyfiawnder troseddol.

## Dioddefwyr a thystion: safonau gwasanaeth uchel yn gyson

### Byddwn yn sicrhau cyfiawnder am fwy o droseddau trwy broses gyfiawnder fwy modern ac effeithiol

**Beth fydd yn wahanol yn 2008**

Bydd cyfiawnder troseddol wedi'i drefnu er mwyn cefnogi'r dioddefwr a llesteirio'r troseddwr. Os ydych yn dioddef trosedd yn eich erbyn, neu'n dyst:

- bydd gennych hawl statudol i driniaeth o safon uchel oddi wrth asiantaethau cyfiawnder troseddol, a ddisgrifir mewn Côd Ymarfer; bydd asiantaethau cyfiawnder troseddol yn atebol am gyflwyno'r rhain;
- byddwch yn cael gwybod yn gyson drwy'r achos beth sy'n digwydd i ddal y sawl a gyflawnodd y trosedd;
- cynigir cefnogaeth i chi gan Uned Gofal Tystion ymhob achos pan gaiff rhywun ei gyhuddo o drosedd. Golyga hyn y bydd cyswllt wedi'i enwi yn rhoi gwybod i chi beth sy'n digwydd gyda'r achos ac yn darparu gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor i'ch galluogi i fynychu'r llys a chyflwyno tystiolaeth;
- bydd gan bob adeilad Llys y Goron a 90% o adeiladau llysoedd ynadon gyfleusterau aros ar wahân ar gyfer dioddefwyr a thystion;
- byddwn yn lleihau aros diangen ar gyfer tystion sy'n gorfod mynychu'r llys;
- os ydych yn ddioddefwr neu'n dyst sy'n ofni am eich diogelwch yn fawr, cynigir mwy o amddiffyniad i chi gan ddeddfwriaeth diogelu tystion newydd;
- Caiff y Gronfa Dioddefwyr, a fydd yn talu am well gwasanaethau cefnogi dioddefwyr, ei chwyddo trwy godi tâl ychwanegol ar bob troseddwr a gollfernir.

### Ein strategaeth er mwyn cyflawni hyn

Mae ein strategaeth i wella profiad dioddefwyr a thystion yn seiliedig ar gyflenwi gwasanaeth sylfaenol gwell i gwsmeriaid, un sy'n cwrdd ag anghenion y bobl a ddylai fod wrth galon y system. Mae angen i bawb sy'n dioddef troseddu wybod bod asiantaethau cyfiawnder troseddol am wneud popeth o fewn eu gallu i ddod â'r sawl sydd wedi cyflawni trosedd o flaen ei well, ac y cânt eu cefnogi a'u hamddiffyn trwy'r broses fel dioddefwyr ac, os oes angen, fel tystion.

### Isafswm safonau gwasanaeth a thriniaeth i bob dioddefwr

Bydd y Côd Ymarfer Dioddefwyr yn y Mesur Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr, yn darparu isafswm safonau gwasanaeth cyson i'r rhai sy'n dioddef trosedd yn eu herbyn. Rydym hefyd yn sefydlu swydd annibynnol Comisiynydd Dioddefwyr i ddarparu llais i ddioddefwyr wrth wraidd y Llywodraeth ac yn gosod y Panel Ymgynghorol Dioddefwyr ar sail statudol.

### Cefnogi pobl i fynychu'r llys a rhoi tystiolaeth

Byddwn yn **sefydlu Unedau Gofal Tystion drwy'r wlad**, a gaiff eu rhedeg ar y cyd gan yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth – megis trafnidiaeth a gofal plant – i ddioddefwyr a thystion o'r adeg y caiff y sawl a ddrwgdybir ei arestio hyd nes y caiff ei ddedfrydu.

Rydym am i bob llys fod â **chyfleusterau aros ar wahân ar gyfer dioddefwyr a thystion yr erlyniad**, wedi'u gwahanu oddi wrth y diffynyddion a'u tystion. Erbyn 2008 bydd gan bob Llys y Goron a 90% o lysoedd ynadon gyfleusterau ar wahân.

Byddwn yn **gostwng aros diangen**. Dylai dod i'r llys fod yn fater ffurfiol nad yw'n golygu gorfod aros am amser maith neu siwrnai seithug.

Byddwn yn **defnyddio technoleg i roi mwy o wybodaeth i ddioddefwyr a thystion** am eu hachos:

- defnyddio'r system XHIBIT a dreialwyd yn Llys y Goron Snaresbrook
- sgriniau arddangos yn y llysoedd i dystion allu gweld statws yr achos ym mhob un o ystafelloedd y llys, gan roi gwell syniad iddynt o'r amser aros.
- gwefan y Gwasanaeth Llys sy'n dangos statws achosion llys ar gyfer pob ystafell llys, a ddiweddarir bob 10 munud; a
- chaiff canlyniadau electronig a gwybodaeth am fechnïaeth eu hanfon yn uniongyrchol at yr Heddlu o Lys y Goron, gan alluogi'r Heddlu i roi gwybodaeth gywir i ddioddefwyr a thystion am eu gwrandawiad.

Byddwn yn **teilwra proses y llys** i ddelio'n well â phobl sy'n dioddef trosedd yn eu herbyn sydd angen triniaeth arbennig, er enghraifft, llysoedd arbenigol ar gyfer dioddefwyr trais domestig.

Byddwn yn mynd i'r afael â'r broblem o **fygwth tystion mewn achosion difrifol a throseddu cyfundrefnol**, gan ddarparu llawer mwy o amddiffyniad i dystion yn y nifer fach yma o achosion. Efallai y bydd angen eu symud i ardal arall neu hyd yn oed newid eu henwau.

Byddwn yn cefnogi ac yn annog **newid diwylliant pellach i wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid**. Bydd safonau rheoli, sy'n sail i'r Côd Dioddefwyr, yn helpu i gyflwyno gwelliannau mesuradwy ym moddhad dioddefwyr a thystion.

## Rhoi grym yn nwylo'r dioddefwyr

Byddwn yn parhau â'n hymgyrch i roi grym yn nwylo'r rhai sy'n dioddef trosedd yn eu herbyn a chynyddu eu cyfraniad a'u ffydd yn y broses gyfiawnder:

- bydd dioddefwr yn parhau i dderbyn gwybodaeth am ei achos ar ôl i'r troseddwr gael ei ddedfrydu.
- os bydd troseddwr yn derbyn dedfryd o 12 mis neu fwy o garchar am drosedd rhywiol neu dreisiol, rhaid i'r Gwasanaeth Prawf roi gwybod i'r dioddefwyr am broses garchar y troseddwr, pryd y mae'n debyg o gael ei ryddhau ac a fydd unrhyw amodau yn berthnasol iddo pan gaiff ei ryddhau.

Rydym hefyd yn arloesi gyda ffyrdd newydd o gynnwys dioddefwyr wrth weld y troseddwr yn dod o flaen ei well. Mae'r rhan fwyaf o Dimau Troseddu Ieuenctid wedi sefydlu cynlluniau cyfiawnder adferol ac mae cynlluniau peilot ar y gweill ar gyfer oedolion.

## Cefnogi dioddefwyr os na chaiff y troseddwr ei ddal

Mae'n bwysig cofio, er gwaethaf holl ymdrechion yr heddlu, na chaiff y troseddwr fyth ei ddal yn achos llawer o ddioddefwyr. Y prif bethau y gallwn eu gwneud yma yw tawelu meddwl y dioddefwr, ei helpu i beidio â dioddef trosedd yn ei erbyn eto, a chynnig y gefnogaeth arbenigol y mae arno'i hangen.

Gwyddwn fod rhai pobl yn dioddef trosedd yn eu herbyn dro ar ôl tro, yn arbennig os ydynt yn byw mewn ardaloedd lle ceir llawer iawn o droseddu. Rydym yn cymryd camau penodol i leihau **erledigaeth dro ar ôl tro**, gan ganolbwyntio ar y troseddau sy'n achosi'r niwed mwyaf.

Gan ein bod yn cydnabod fod rhai dioddefwyr angen **cyngor arbenigol** a chefnogaeth rydym yn cymryd camau i ymestyn yr adnoddau sydd ar gael a datblygu gwell darpariaeth trwy'r **Gronfa Dioddefwyr**. Byddwn yn codi tal ychwanegol ar bob collfarn troseddol, ac ar rai Rhybuddion Cosb Sefydlog, a allai chwyddo cyfanswm gwerth y Gronfa i £30 miliwn.

Mae £4 miliwn o elw troseddu eisoes yn y Gronfa i gefnogi **dioddefwyr troseddau rhywiol**. Rydym yn cynyddu nifer y canolfannau cyfeirio a chynghori ar drais rhywiol, ac yn edrych ar ymarferoldeb sefydlu llinell gymorth genedlaethol a cynyddu gallu darpariaeth y sector gwirfoddol.

## Troseddwyr: sicrhau cyfiawnder am fwy o droseddau

### Byddwn yn sicrhau cyfiawnder am fwy o droseddau trwy broses gyfiawnder fwy modern ac effeithiol

**Beth fydd yn wahanol yn 2008**

- Byddwn yn sicrhau cyfiawnder ar gyfer 150,000 yn fwy o droseddau;
- Byddwn yn codi'r gyfradd ddarganfod o 19% i o leiaf 25%, trwy wella effeithiolrwydd yr heddlu a defnyddio technoleg newydd yn cynnwys gwell profion DNA a systemau Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig drwy'r wlad i dargedu troseddwyr yn fwy effeithiol;
- Er mwyn cael y cyhuddiad yn iawn y tro cyntaf, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn darparu arweiniad cyfreithiol i'r heddlu 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos ynglŷn â pha gyhuddiad sy'n addas;
- Byddwn yn mynd ati'n ddiflino i dargedu'r 15-20 sy'n troseddu dro ar ôl tro amlaf ym mhob ardal Partneriaeth Lleihau Trosedd ac Anrhefn, ac yn rhoi pwerau i'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Asiantaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol i fynd i'r afael â'r troseddwyr mwyaf difrifol a chyfundrefnol;
- Byddwn yn cyfeirio mwy o bobl o'r llys os nad oes angen iddynt fod yno trwy wneud mwy o ddefnydd o Rybuddion Cosb Sefydlog ar gyfer amrywiaeth ehangach o droseddau erbyn Mawrth 2005 ac yn ymestyn pwerau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn raddol i gyflwyno rhybuddion amodol;
- Os oes angen cynnal achos llys, byddwn yn sicrhau ei fod yn cyrraedd y llys yn barod i fwrw ymlaen, gan ostwng nifer y gwrandawiadau gwastraffus erbyn 2007-08 o bumed rhan arall yn Llys y Goron ac o draean arall yn y Llysoedd ynadon;
- Byddwn wedi diwygio'r system cymorth cyfreithiol i ddileu gwastraff amser ac oedi a chanolbwyntio cymorth a chefnogaeth ble mae ei angen fwyaf;
- Yn sgil sefydlu'r Unedau Gofal Tystion i gefnogi tystion wrth i'w hachosion ddatblygu, byddwn yn sicrhau bod mwy o dystion yn mynychu'r llys, gan arwain at ohirio llai o achosion a lleihau'r demtasiwn i ddiffynyddion oedi cyn pledio'n euog.

## Ein strategaeth er mwyn cyflawni hyn

Ein nod yw rhwystro troseddau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Ond pan gyflawnir troseddau, mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y bydd y System Cyfiawnder Troseddol yn gwneud popeth o fewn ei allu i ddod â'r troseddwr o flaen ei well. Bydd hyn yn cynnwys:

- plismona o safon uchel i ddod o hyd i'r sawl a ddrwgdybir a chasglu'r holl dystiolaeth sydd ei hangen i sicrhau erlyniad, rhybudd neu Rybudd Cosb Sefydlog;
- cydweithrediad agos rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu i sicrhau bod y system yn dod â'r cyhuddiad iawn yn y lle cyntaf;
- dod â thystiolaeth, y diffynnydd a thystion at ei gilydd ar y diwrnod iawn fel bod yr achos yn cael ei gynnal ar y diwrnod y bwriadwyd ar ei gyfer, os yw'r troseddwr yn gwadu'r cyhuddiad;
- os caiff y troseddwr ei gollfarnu – dedfryd sy'n addas i'r troseddwr yn ogystal ag i'r trosedd a rhoi gwybod yn gyflym i'r dioddefwyr beth oedd canlyniad y llys.

## Darganfod mwy o droseddau

Er mwyn cwrdd â'n targed o sicrhau cyfiawnder ar gyfer 1.25 miliwn o droseddau, rydym yn amcangyfrif y bydd angen cynyddu'r gyfradd ddarganfod drwy Gymru a Lloegr o 6 pwynt canran o leiaf i 25% erbyn 2007-08. Cyflawnir y gwelliant hwn trwy wella effeithlonrwydd ac effeithioldeb a thrwy wneud yn siŵr y caiff arfer gorau ei rannu a'i ddilyn gan bob heddlu:

- dosbarthu tasgau yn well rhwng swyddogion heddlu, Swyddogion Cefnogi Cymunedau a dinasyddion;
- gwella technoleg, gyda gwell gallu i ddarganfod olion bysedd a DNA a gwell defnydd o'r system Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig;
- sledaenu arfer da wrth rybuddio ac annog troseddwyr i gyfaddef troseddau pellach yn cael ei ystyried gan y llys.

Bydd rheolaeth gref dros berfformiad hefyd yn hanfodol er mwyn cau'r bwlch mewn cyfraddau darganfod rhwng heddluoedd tebyg.

## Dod â'r cyhuddiad cywir

Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gyhuddo oddi wrth yr heddlu i Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae cynlluniau peilot sy'n gosod erlynydd hyfforddedig Gwasanaeth Erlyn y Goron ochr yn ochr â'r heddlu yn fuan, i'w cynghori ynglŷn â pha gyhuddiad sy'n addas a'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu er mwyn sicrhau achos llwyddiannus, yn cael effaith ddramatig sy'n golygu bod llai o achosion yn dod i **ben, mwy** o achosion yn arwain at bledio'n euog yn fuan a gostyngiad mewn atrisiwn (achosion nad ydynt yn cyrraedd y llysoedd).

Byddwn yn lledaenu'r cynllun drwy'r wlad erbyn Mawrth 2007.

## Gostwng nifer yr achosion nad ydynt yn cael eu cynnal ar y diwrnod

Tan yn ddiweddar, ni fu unrhyw atebolrwydd clir na system i sicrhau bod achosion yn cyrraedd y llysoedd yn barod i'w cynnal. Mae'r Rhaglen Rheoli Achos Effeithiol (ETMP) wedi paratoi fframwaith sy'n disgrifio rolau a chyfrifoldebau pob ochr er mwyn bwrw ymlaen ag achosion troseddol; a phroses sy'n sicrhau bod achosion wedi'u paratoi'n gywir ac yn barod i gael eu cynnal ar y diwrnod y'u rhestrwyd.

Rydym hefyd yn cymryd camau i wneud yn siŵr bod diffynyddion yn mynychu'r llys pan ddylent wneud hynny. Os bydd troseddwyr yn methu â mynychu gellir bwrw ymlaen â'r achos yn eu habsenoldeb a chânt eu cosbi am beidio â mynychu. Mae cynlluniau peilot ETMP yn dangos canlyniadau buan calonogol mewn tair ardal cyfiawnder troseddol.

## Cael mwy o dystion i gymryd rhan

Gall sicrhau bod y tyst yn mynychu'r llys fod yn ganolog i sicrhau cyfiawnder am drosedd. Methiant tyst yr erlyniad i fynychu sy'n gyfrifol am 22% o achosion Llys y Goron aneffeithiol a 26% o achosion aneffeithiol mewn llysoedd ynadon.

Disgrifiwyd ein cynlluniau i gyflwyno Unedau Gofal Tystion yn yr adran flaenorol ar ddioddefwyr a thystion.

## Gwella effeithlonrwydd

Gellid dilyn gweithdrefnau eraill i ddelio yr un mor effeithiol â rhai achosion sy'n dilyn y broses gyfiawnder troseddol lawn. Bydd ymestyn y defnydd o Rybuddion Cosb Sefydlog i amrywiaeth ehangach o fân droseddau, megis dwyn o siopau a niwed troseddol, a defnyddio pwerau rhybuddio amodol, yn galluogi'r llysoedd i ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniad iawn o bob achos difrifol. Os oes angen mynd ag achosion i'r llys, byddwn yn gweithredu'n rhagweithiol i annog ei ddatrys mor gyflym â phosib, trwy annog pobl i bledio'n euog yn fuan a lleihau gwrandawiadau diangen.

## Teilwra'r broses cyfiawnder troseddol i gyd-fynd â'r trosedd

Trwy deilwra'r broses cyfiawnder troseddol i'r math o drosedd dan sylw, gallwn wneud gwahaniaeth mawr i ba mor effeithiol yr ydym yn delio ag ef.

Byddwn yn sefydlu mwy o lysoedd arbenigol lle mae angen addasu'r dull gweithredu er mwyn sicrhau cyfiawnder:

- rydym eisoes wedi cyflwyno erlynwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol arbenigol a Llysoedd Ymateb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn 12 ardal.

- rydym yn arbrofi gydag gwrandawiadau arbenigol ar gyfer achosion yn ymwneud â chyffuriau. Byddwn yn sefydlu'r llysoedd cyffuriau llawn cyntaf yn 2005, ac yn sefydlu'r llysoedd hynny ym mhobman ble mae eu hangen erbyn 2008.

- ar gyfer troseddau ble mae'r gyfradd collfarnau yn isel iawn, megis trais domestig, rydym yn edrych yn benodol ar sut y gallwn gymryd camau arbennig. Mae chwe llys trais domestig arbenigol wedi'u sefydlu, gan ddarparu cefnogaeth benodol i ddioddefwyr, a bwriadwn ymestyn y dull gweithredu hwn i ardaloedd eraill.

Yn ogystal â hynny:

- byddwn yn canolbwyntio ein hegni ar ddelio â'r rhai sy'n troseddu dro ar ôl tro;

- ceir ymateb penodol i droseddu cyfundrefnol, ac;

- mae pwerau i atafaelu asedau troseddol, eu cymryd oddi arnynt a'u hadennill, wedi'u cryfhau.

Bydd gwahaniaethu'r broses o ddelio â'r trosedd fel hyn yn ein helpu i sicrhau bod nifer y troseddwyr nad yw eu troseddau'n cael eu cosbi yn gostwng yn sylweddol.

## Gorfodi: sicrhau y caiff gorchmynion a dedfrydau'r llys eu cyflawni

### Bydd gorfodi llym yn chwyldroi cydymffurfiad â dedfrydau a gorchmynion y llys

**Beth fydd yn wahanol yn 2008**

- Bydd presenoldeb diffynyddion yn y llys wedi gwella a byddwn yn well am ddal y rhai sy'n methu ag ymddangos;
- Bydd dedfrydau doethach yn cosbi'r troseddwr, yn diogelu'r cyhoedd ond hefyd yn helpu troseddwyr i roi'r gorau i droseddu, yn cynnwys triniaeth ddwys i rai sydd ar gyffuriau;
- Bydd yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y llysoedd ac asiantaethau eraill fel yr Asiantaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol yn gallu cadw o leiaf 50% o werth yr holl asedau troseddol y maent yn helpu i'w hatafaelu;
- Bydd y ganran o ddirwyon a gesglir yn uwch;
- Caiff achosion o dorri cosbau cymunedol eu dwyn i'r llys yn gyflymach ac yn fwy dibynadwy;
- Bydd yr Heddlu, gan ddefnyddio Cyfrifiadur Cenedlaethol yr heddlu, yn gallu targedu absenolwyr, a dweud dim ond wrth edrych a yw pobl sy'n cael eu stopio ganddynt yn rhedeg rhag y llys, a oes ganddynt ddirwyon heb eu talu neu a ydynt wedi torri amodau dedfryd gymunedol;
- Byddwn yn delio â bylchau yn y rheolau sy'n caniatáu i droseddwyr osgoi gorfodaeth trwy rannu gwybodaeth yn well a rhoi mwy o bwerau i swyddogion;
- Bydd yna gymhellion ariannol i staff gorfodaeth am berfformiad da.

### Ein strategaeth er mwyn cyflawni hyn

Mae'r cyhoedd yn disgwyl i ni gyflwyno cyfiawnder, a gwneud hynny'n effeithiol. Caiff y nod hwn ei rwystro os yw diffynyddion sydd ar fin ymddangos yn y llys neu sy'n derbyn dedfryd o ddirwy neu fod ar brawf yn gallu mynd yn absennol heb gosbau cyflym a llym.

### Sicrhau bod diffynyddion yn mynychu'r llys

Ar hyn o bryd, ni fydd y diffynyddion yn mynychu 5% o holl wrandawiadau'r llysoedd ynadon a 3% o holl wrandawiadau Llys y Goron. Rydym yn delio â'r broblem hon mewn sawl ffordd:

- cryfhau'r rheolau ynglŷn â mechnïaeth;
- defnyddio tagio electronig a'r Rhaglen Goruchwyliaeth a Chudd-ymchwil Dwys (ISSP) ar gyfer troseddwyr ifanc difrifol a di-baid;
- os torrir amodau mechnïaeth cymerir camau cyflym i ddod â throseddwyr gerbron y llys, gan ddefnyddio gwell technoleg a rhannu gwybodaeth yn well;
- canlyniadau difrifol am dorri amodau mechnïaeth. Yn gyffredinol caiff mechnïaeth naill ai ei ddirymu neu pennir amodau mwy caeth; gellir bwrw ymlaen ag achos yn absenoldeb y diffynnydd; a rhoddir cosb ar wahân, sef dedfryd o garchar fel arfer, am y trosedd mechnïaeth.

### Gwneud yn siŵr fod troseddwyr yn talu eu dirwyon

Bydd bron i 70% o bobl a ddedfrydir gan y llysoedd yn derbyn dirwy. Yn aml mae dirwy yn gosb briodol, ond yn aml iawn ni chaiff ei thalu. Os na all troseddwyr fforddio talu, cânt gyfle i'w

throsi'n oriau cyfatebol o waith gorfodol. Arbrofir gyda'r system hon yn fuan a chaiff ei lledaenu drwy'r wlad os yw'n llwyddiannus ar gyfer y rhai hynny nad ydynt wir yn gallu fforddio talu dirwy.

Rydym hefyd yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr ein bod yn mynd ar drywydd pob troseddwr nad yw'n talu ei ddirwy a'i orfodi i'w thalu. Mae'n dull gweithredu yn cynnwys:

- rhoi mwy o bwerau i staff gorfodaeth llinell flaen – pwerau chwilio a mynediad. Rydym hefyd yn arbrofi gyda mesurau newydd i adfer refeniw, megis atafael enillion, tynnu budd-daliadau'r wladwriaeth, a chlampio ceir;

- gwell rheolaeth – mae atebolrwydd wedi'i finiogi trwy benodi pencampwyr dirwyon ar bob Pwyllgor Llysoedd Ynadon, ynghyd â pholisi newydd, llawer mwy cyfyngol, ar gyfer dileu dirwyon;

- cymhellion ariannol newydd i dimau a Gwasanaeth y Llysoedd yn ei gyfanrwydd.

Rydym eisoes wedi gwella perfformiad gorfodi, fel bod o leiaf 75% o ddirwyon wedi'u talu yn ystod y chwarter diwethaf (Mawrth i Fai 2004), a phennwyd targed cenedlaethol o 78% ar gyfer 2004/5. Trwy ddefnyddio'r pwerau a'r systemau newydd a sefydlwyd, byddwn yn sicrhau gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn yn ystod y pum mlynedd nesaf wrth gasglu dirwyon.

## Gweithredu'n effeithiol pan gaiff amodau cosbau cymunedol eu torri

Cred y Llywodraeth fod cosbau cymunedol yn briodol a chost-effeithiol mewn sawl achos. Ond er mwyn sicrhau ffydd ymysg defnyddwyr, dedfrydwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol, rhaid iddynt gael eu gorfodi'n llym.

Y llynedd, cyhoeddwyd dros 40,000 o warantau ar gyfer troseddwyr a oedd wedi methu â mynychu'r llys pan gawsant eu gwysio ar ôl torri amodau cosb gymunedol. Mae'n cymryd amser wedyn cyn y gellir dod o hyd i'r troseddwr a gwneud iddo egluro pam. Nid yw'r rhan fwyaf o warantau yn caniatáu mechnïaeth felly unwaith y deuir o hyd i'r troseddwr, caiff ei gadw yn y ddalfa nes iddo ymddangos o flaen y barnwr.

Mae angen i ni gyflymu'r broses a'i gwneud yn fwy effeithiol. Bwriadwn wneud hyn trwy:

- roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n troseddu dro ar ôl tro – byddwn yn targedu ein hadnoddau er lles gorau'r gymuned. Byddwn yn datblygu safon genedlaethol llwybr cyflym i sicrhau bod y rhai sy'n troseddu dro ar ôl tro yn dychwelyd i'r llys yn ddi-oed;

- tynhau gweithdrefnau – mae Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn gwneud i ffwrdd â disgresiwn Swyddogion Prawf i beidio ag adrodd am droseddwr sy'n methu â chyflawni ei gosb. Hefyd bydd yn rhaid i ddedfrydwyr gosbi'r troseddwr o'r newydd am dorri amodau ei gosb gymunedol;

- sefydlu targedau clir ar gyfer gwella o un pen i'r llall – o 2005 ymlaen, bwriadwn ailgynllunio ein targedau ar gyfer gorfodi achosion o dorri amodau cosbau cymunedol er mwyn rhoi ystyriaeth i'r broses lawn o un pen i'r llall o'r adeg y mae'r troseddwr yn torri'r amodau hyd nes y bydd yn ymddangos yn y llys;

- meithrin perthynas waith agosach rhwng y gwasanaeth prawf a'r llysoedd, trwy'r camau yr ydym yn eu cymryd i gydweithio'n well drwy'r system.

Trwy wneud y newidiadau hyn byddwn yn dangos bod y system cyfiawnder troseddol yn ystyried methu â chwblhau cosb gymunedol o ddifrif, ac yn dod â mwy o hygrededd i gosbau cymunedol ymysg dedfrydwyr a'r cyhoedd.

## Defnyddwyr: gwell gwasanaeth i gwsmeriaid

**Bydd y gwasanaeth cyfiawnder troseddol yn unedig, yn fodern ac yn cael ei redeg yn dda, ac yn lle gwych i weithio i bobl o bob cefndir**

**Beth fydd yn wahanol yn 2008**

- Bydd yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol yn cyflwyno gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid; bydd gan ddioddefwyr a thystion hawl statudol i isafswm safonau gwasanaeth;
- Bydd technoleg fodern wedi trawsnewid y gwaith o ddarganfod trosedd a phrosesu a rheoli troseddwyr; bydd y datblygiadau yn cynnwys system gudd-ymchwil genedlaethol ar gyfer pob gwasanaeth heddlu; system fodern newydd yn lle Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu; gwell cronfeydd data DNA ac olion bysedd, a chyfleuster i ddod o hyd i ddarpar droseddwyr trwy ddefnyddio olion cledr y llaw;
- Trwy fuddsoddi £800 miliwn pellach mewn TG ar gyfer y system cyfiawnder troseddol, yn ychwanegol i'r £1.2 biliwn a addawyd eisoes, bydd staff cyfiawnder troseddol yn gallu cyfathrebu'n gyflym ac yn effeithiol trwy seilwaith TG cysylltiedig unigol. Bydd systemau rheoli achos electronig wedi trawsnewid y gwaith o ddelio ag achosion rhwng yr heddlu a thîm yr erlyniad, yn y llysoedd, ac wrth reoli troseddwyr;
- Fel y timau sy'n dod â phrif swyddogion at ei gilydd yn lleol, bydd Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn gyrff sefydledig, gydag adnoddau da a'r pŵer i gyflawni;
- Bydd y berthynas rhwng yr adrannau cyfiawnder troseddol wedi'i chryfhau, ac yn sylfaen i hynny caiff Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol ei chreu, sef canolfan dairochrog ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol;
- Bydd gennym y nifer iawn o staff, gyda'r sgiliau, y tâl a'r pwerau angenrheidiol i wneud eu gwaith yn effeithiol;
- Bydd cymhelliant y gweithlu cyfiawnder troseddol yn uwch a bydd trosiant staff a lefelau salwch yn is, a lefelau boddhad mewn swydd yn uchel;
- Bydd gweithlu pob asiantaeth cyfiawnder troseddol yn fwy amrywiol, gan gynrychioli'r gymuned leol y mae'n ei wasanaethu yn well.

### Ein strategaeth er mwyn cyflawni hyn

Ein nod yw gwella perfformiad cyfiawnder troseddol. Ond rydym hefyd am i ddefnyddwyr y gwasanaeth deimlo'r newid. Ein nod yw codi safonau gwasanaeth ar draws y system fel bod pob dioddefwr, tyst a chwsmer arall yn gwybod y bydd yn profi triniaeth o'r un safon uchel oddi wrth bwy bynnag sy'n delio â hwy.

### Technoleg fodern ar gyfer cyfiawnder troseddol modern

Mae technoleg fodern yn cynnig y potensial i chwyldroi profiad y rhai sy'n gweithio ym maes cyfiawnder troseddol, a'r rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau.

Erbyn Mawrth 2008 ein gweledigaeth yw y dylai pawb sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol – y rhai sy'n ei ddefnyddio neu bobl sy'n gweithio yn y maes – fod â mynediad electronig i'r wybodaeth sydd arnynt ei hangen pan fydd arnynt ei hangen. Rydym yn buddsoddi dros £2 biliwn mewn systemau a seilwaith hyd at 2007-08 a fydd yn darparu am y tro cyntaf:

- **seilwaith TG modern,** fel bod pobl sy'n gweithio ym maes cyfiawnder troseddol yn gallu defnyddio cymwysiadau swyddfa safonol megis e-bost a gwasanaethau seiliedig ar y rhyngrwyd;

- **systemau cenedlaethol ar gyfer rheoli achosion** gan roi blaenoriaeth i'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Llysoedd Ynadon;

- **cydgysylltu systemau rheoli achosion** fel y gellir rhannu gwybodaeth rhyngddynt a **sicrhau bod gwybodaeth ar gael** i'r rhai hynny sydd ag awdurdod i'w gweld. Rydym hefyd yn gweithio gydag ymarferwyr i'w helpu i wneud y newidiadau busnes sydd eu hangen er mwyn manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg.

## Gweithio gyda'n gilydd ym maes cyfiawnder troseddol

Mae rolau a chyfrifoldebau'r asiantaethau cyfiawnder troseddol wedi'u gwahanu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio er budd cyfiawnder. Ond mae angen i'r asiantaethau gydgysylltu eu gweithgareddau o ddydd i ddydd er mwyn cyflwyno cyfiawnder yn effeithiol ac yn effeithlon.

## Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol

Mae'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (OCJR), ar sail draws-adrannol, yn cyflawni'r rhan fwyaf o swyddogaethau ac yn defnyddio'r rhan fwyaf o staff yr hyn a arferai fod yn Grŵp Cyfiawnder Troseddol y Swyddfa Gartref. Yn y dyfodol bydd OCJR yn adrodd ar y cyd i'r Ysgrifennydd Cartref, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol a'r Twrnai Cyffredinol, a'i dasg yw cefnogi'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a Chenedlaethol wrth ddatblygu a chyflwyno targedau ar draws y system cyfiawnder troseddol.

## Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol

Bydd gan Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol rôl hanfodol wrth wella safonau gwasanaethu cwsmeriaid, a chyflwyno'r gwasanaeth y mae'r gymuned leol ei eisiau. Cyflwynir gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng asiantaethau lleol, a'r Byrddau yw ffocws ein hymgyrch i uno'r system cyfiawnder troseddol.

Os ydym am gyrraedd ein nodau, a chodi safonau'r gwasanaeth i'r cyhoedd, mae angen i ni fuddsoddi mwy yn y seilwaith sylfaenol er mwyn sicrhau bod gan bob Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yr adnoddau dynol ac ariannol a'r amser i wneud y gwaith.

## Rheoli perfformiad

Bydd y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol yn cydgysylltu'r gwaith o reoli perfformiad Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a thargedau cyffredinol y system cyfiawnder troseddol. Er mwyn gwneud hyn, bydd yn gweithio gydag adrannau ac asiantaethau'r system cyfiawnder troseddol i ddefnyddio'r dylanwad sydd ganddynt dros asiantaethau lleol i sicrhau eu bod yn cyflawni nodau'r system yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â rhai'r asiantaeth unigol.

## Cael y gorau o'r gweithlu cyfiawnder troseddol

Y gweithlu yw ased mwyaf gwerthfawr y system cyfiawnder troseddol. Trwyddynt hwy y byddwn yn lleihau trosedd, yn sicrhau cyfiawnder ar gyfer mwy o droseddau ac yn codi ffydd yn gyffredinol. Mae cyflogwr da yn denu ac yn cadw staff o safon uchel, ac yn ysbrydoli ei weithlu i lwyddo, trwy greu'r amgylchedd gorau ar gyfer cyflawni ei nodau a'i amcanion. Dim ond os ydynt wedi'u hysgogi'n addas y byddant yn cyflawni'r gwelliannau diriaethol sydd arnom eu hangen.

Yn ystod y saith mlynedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi yn ein gweithlu, gan sicrhau mwy o swyddogion heddlu, erlynwyr, a staff carchardai a phrawf. Rydym hefyd wedi creu swyddi newydd: swyddogion cefnogi cymunedau i gefnogi'r heddlu; swyddogion dirwyon i ryddhau amser y llysoedd; gweithwyr achos dynodedig i erlyn mewn achosion syml; eiriolwyr uwch i gyflwyno achosion yn y llysoedd; a thimau troseddu ieuenctid i fynd i'r afael â throseddu ymhlith pobl ifanc.

Pan fydd angen, byddwn yn parhau i gynyddu nifer y staff llinell flaen a byddwn yn parhau i adolygu rolau er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd:

- byddwn yn rhoi'r pwerau sydd arnynt eu hangen i wneud y gwaith i swyddogion llinell flaen;
- pecynnau hyfforddi cydgysylltiedig, a hyrwyddo secondiadau, benthyciadau a throsglwyddiadau rhwng asiantaethau'r system cyfiawnder troseddol i hwyluso gwell dealltwriaeth o rôl pob un yn y gwaith o sicrhau cyfiawnder troseddol teg ac effeithiol;
- byddwn yn hyrwyddo llwybrau gyrfa eraill, er enghraifft mae cynllun Hyfforddai Cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhoi cyfle i staff nad ydynt o gefndiroedd traddodiadol ddilyn gyrfa gyfreithiol;
- byddwn yn parhau i foderneiddio tâl ac amodau – nid cyfraddau tâl yn unig, ond agweddau eraill hefyd (pensiynau, gweithio hyblyg, cymorth gofal plant ac arferion gweithio sy'n helpu teuluoedd, boddhad cyffredinol mewn swydd) a fydd yn denu pobl i faes cyfiawnder troseddol.

## Y Farnwriaeth

O'r flwyddyn 2006, bydd Comisiwn Penodiadau Barnwrol newydd yn gyfrifol am y broses o ddethol ymgeiswyr ar gyfer y farnwriaeth, gyda rôl gytbwys ofalus ar gyfer y gweithgor a'r barnwyr. Rhoddir y dasg benodol i'r Comisiwn o wneud pob ymdrech i ddenu ymgeiswyr cymwys o'r grwpiau hynny nad oes cynrychiolaeth ddigonol o'u plith ar hyn o bryd yn y farnwriaeth.

Byddwn yn codi proffil ynadon, gan hyrwyddo ynadon lleyg ac ehangu'r pwll y cânt eu dethol ohono.

## Amrywiaeth

Un o'r prif egwyddorion sy'n sail i'r cynllun strategol hwn yw gwneud cyfiawnder troseddol yn ymatebol, ar gael i bawb, ac yn wasanaeth y mae gan y gymuned ffydd ynddo. Sylweddolwn fod yn rhaid i gyfansoddiad y gweithlu adlewyrchu amrywiaeth ei gymuned lle bynnag y bo modd.

Er mwyn sicrhau gweithlu mwy cynrychiadol, mae angen i ni sicrhau bod gyrfa ym maes cyfiawnder troseddol yn ddeniadol i grwpiau nad oes digon o gynrychiolaeth o'u plith yn y gweithlu; a'n bod yn dileu unrhyw rwystrau sy'n atal eu datblygiad. Cefnogir gwaith i greu polisïau cyflogaeth effeithiol, telerau ac amodau, a chydymffurfiad â deddfwriaeth a chanllawiau arfer da eraill, gan waith cadarnhaol yn y gymuned.

Byddwn yn pennu targedau cyson i sicrhau mwy o gynrychiolaeth a datblygiad gyrfa i grwpiau penodol o fewn y gymuned ar draws y system cyfiawnder troseddol. Caiff perfformiad ei fonitro ar sail y targedau hyn.

System cyfiawnder troseddol: gweithio gyda'n gilydd er mwyn y cyhoedd